Cyllid & Thollau EM

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A sy'n ddyledus Treuliau a buddiannau – Datganiad y cyflogwr

Blwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011

Cyfeirnod TWE y cyflogwr

Cyfeirnod y Swyddfa Gyfrifon

Dychweler y ffurflen hon i'r cyfeiriad a ddagosir isod

Enw a chyfeiriad y cyflogwr

Os na anfonwyd y ffurflen hon yn awtomatig efallai na fydd yn dangos eich holl fanylion. *Os felly, byddwch gystal â llenwi'r mannau priodol uchod cyn ei hanfon i'ch swyddfa Cyllid a Thollau EM.*

Darllenwch y nodiadau drosodd cyn llenwi'r ffurflen.

Peidiwch â datgan unrhyw symiau a nodwyd eisoes yn nhrefniadau'r Cynllun Gwobrwyo Trethadwy.

1 Cyfraniadau Yswiriant Gwlaldol (CYG) Dosbarth 1A sy'n ddyledus

Nodwch gyfanswm y buddiannau sy'n atebol i CYG Dosbarth 1A o ffurflenni P11D. (Dyma gyfanswm y blychau brown CYG Dosbarth 1A ar ffurflenni P11D. Ceir arweiniad cyflym ar dudalen 5 o CWG5 os nad ydych yn siŵr).

A £ 1A

√ ☐ **Os oes angen i chi addasu'r ffigurau a roddwyd ym mlwch A peidiwch â llenwi blwch C isod, ticiwch y blwch hwn ac yna llenwch Adran 4 drosodd.**

Lluoswch gyda'r gyfradd CYG Dosbarth 1A — B 12.8%

CYG Dosbarth 1A sy'n daladwy — blwch A x cyfradd ym mlwch B — C £ 1A

2 Datganiad y cyflogwr

Ticiwch y blwch perthnasol a chwblhewch y manylion priodol

√ ☐ Ni chafodd unrhyw daliadau treuliau na buddiannau o'r math i'w datgan ar ffurflen P11D eu darparu ac ni chânt eu darparu ar gyfer y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011. Oherwydd hynny ni atodir unrhyw ffurflenni P11D.

☐ Rwy'n cadarnhau bod yr holl fanylion am y taliadau treuliau a buddiannau sy'n rhaid eu datgan ar ffurflenni P11D ar gyfer y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011 **wedi'u hamgáu** gyda'r datganiad hwn. Rwy'n datgan bod y manylion ar y ffurflenni hyn yn gyflawn ac yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

☐ Anfonwyd ffurflenni P11D ar gyfer y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2011 i swyddfa _____ Cyllid a Thollau EM ar / /

Rwy'n cadarnhau bod manylion y taliadau treuliau a buddiannau sy'n rhaid eu datgan ar ffurflenni P11D wedi cael eu hanfon i Gyllid a Thollau EM.

Rwy'n datgan bod yr holl fanylion ar y ffurflen hon yn gyflawn ac yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Llofnod y cyflogwr _____ **Dyddiad** / /

Dylai'r cyflogwr neu unrhyw berson a awdurdodir i wneud hynny lofnodi'r datganiad hwn.

Llofnodir yn rhinwedd swydd _____

3 Nodiadau ar gyfer y cyflogwr

Dylech roi copi o'r manylion sydd ar eu P11D i bob cyflogai a chyfarwyddwr ac anfon y ffurflenni P11D wedi'u llenwi i'ch swyddfa Cyllid a Thollau EM erbyn **6 Gorffennaf**.

Talwch y CYG Dosbarth 1A a ddangosir ar y datganiad i'r Swyddfa Gyfrifon. Mae manylion ar sut i dalu i'w cael ar wefan CThEM yn **www.hmrc.gov.uk/payinghmrc/class1anics.htm**. Dylech dalu erbyn:

- **19 Gorffennaf** os yn talu drwy'r post neu mewn arian parod, **neu**
- **22 Gorffennaf** os yn talu drwy ddull electronig wedi'i gymeradwyo.

Pan fydd **22 Gorffennaf** yn disgyn ar benwythnos neu ŵyl banc, dylai'ch taliad gyrraedd ein cyfrif banc ddim hwyrach na'r diwrnod gwaith banc olaf cyn **22 Gorffennaf**. Codir llog ar symiau a delir yn hwyr. Codir cosbau yn awtomatig os na dderbynnir eich datganiad erbyn 6 Gorffennaf. Efallai y cewch eich cosbi neu eich erlyn os gwnewch ddatganiad anwir.

Noder: os ydych eisoes wedi dynodi ar eich ffurflen P35 nad oes angen ffurflenni P11D a P11D(b), yna nid oes rhaid anfon y ffurflen hon.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) Dosbarth 1A sy'n ddyledus

Mae cyflogwyr yn talu CYG Dosbarth 1A ar fuddiannau y mae'n rhaid eu datgan ar ffurflenni P11D heblaw pan fydd CYG Dosbarth 1 neu CYG Dosbarth 1B yn ddyledus. Cafodd y blychau ar ffurflen P11D eu lliwio'n frown a'u marcio â 1A i'ch helpu adnabod buddiannau sydd â CYG Dosbarth 1A yn ddyledus arnynt. Darllenwch yr arweiniad yn y P11D(Canllaw) a'r llyfryn CWG5(2011) *Class 1A National Insurance contributions on benefits in kind. A guidance for employers* cyn llenwi'r ffurflenni P11D a'r Datganiad hwn.

Ffurflenni P11D

Fel cyflogwr mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen P11D, taliadau treuliau a buddiannau, ar gyfer pob cyflogai a delir ar gyfradd o £8,500 neu ragor y flwyddyn ac ar gyfer pob cyfarwyddwr, os ydych:

- wedi darparu treuliau neu fuddiannau ar eu cyfer nas cwmpesir gan oddefeb neu Gytundeb Setliad TWE
- wedi trefnu i dreuliau neu fuddiannau gael eu darparu gan drydydd person.

Anfonwch y datganiad hwn ynghyd â'r ffurflenni P11D wedi'u llenwi i'ch swyddfa Cyllid a Thollau EM. Os ydych yn dewis anfon ffurflenni P11D fesul sypiau, anfonwch y datganiad gyda'r swp olaf.

Mae cyfeiriadau tuag at ffurflenni P11D a swyddfa Cyllid a Thollau EM yn y datganiad hwn yn cynnwys datganiad taliadau treuliau a buddiannau drwy gyfrwng magnetig i Ganolfan Ddata Shipley.

4 Addasiadau i CYG Dosbarth 1A

Cwblhewch yr adran hon os oes angen i chi addasu cyfanswm y buddiannau y dangoswyd eu bod yn atebol i CYG Dosbarth 1A. Mae paragraff 18 o'r CWG5 yn egluro o dan ba amgylchiadau y bydd angen i chi, o bosib, wneud addasiadau.

Nodwch gyfanswm y buddiannau sy'n atebol i CYG Dosbarth 1A o Adran 1, blwch A drosodd.	**A** £	1A
Nodwch unrhyw addasiad i'r ffigurau ym mlwch A gan ddefnyddio'r ddau flwch isod		
• Ychwanegwch unrhyw symiau nas cynhwyswyd ym mlwch A y mae CYG Dosbarth 1A yn ddyledus arnynt Disgrifiad byr	Swm i'w ychwanegu **B** £	1A
• Didynnwch unrhyw symiau a gynhwyswyd ym mlwch A **nad** oes CYG Dosbarth 1A yn ddyledus arnynt Disgrifiad byr	Swm i'w ddidynnu **C** £	
Cyfanswm y buddiannau y mae CYG dosbarth 1A yn ddyledus arnynt	blwch A + blwch B *llai* blwch C **D** £	1A
Lluoswch gyda'r gyfradd CYG Dosbarth 1A	**E** 12.8%	
CYG Dosbarth 1A sy'n daladwy	blwch D x cyfradd ym mlwch E **F** £	1A